

Crynodeb o Adroddiad Blynyddol 2015-16

Croeso i'r crynodeb o adroddiad blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2015-16. Mae'r adroddiad blynyddol yn cyflwyno'r hyn a wnaethom yn ystod 2015-16 i wella bywydau pobl yn y fwrdeistref sirol. Mae'n bwysig nodi bod yr adroddiad blynyddol yn canolbwyntio ar berfformiad y Cyngor yn erbyn blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol yn unig, ac nid yw'n canolbwyntio ar bopeth a wnaethpwyd gennym yn ystod y flwyddyn honno. Gobeithio y bydd y crynodeb hwn yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol i chi.

Gosodwyd chwe blaenoriaeth gennym ar gyfer 2015-16, ac mae'r adrannau isod yn dangos rhai o'r pethau a gyflawnwyd gennym

Blaenoriaeth Un - Cydweithio i ddatblygu'r economi leol

Ein bwriad oedd parhau i adfywio canol ein trefi, mynd ati i chwilio am gyfleoedd ariannu newydd ac annog buddsoddiadau newydd er mwyn helpu i hybu ein heconomi lleol a chreu mwy o gyfleoedd gwaith.

- Yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr, dechreuwyd ar y gwaith o ailddatblygu maes parcio aml-lawr Rhiw, a fydd yn cynnwys 28 o fflatiau fforddiadwy ac uned fasnachol a fydd yn creu bywyd cymunedol yng nghanol y dref, gan hybu masnach a helpu i gefnogi'r economi leol.
- Llwyddwyd i sicrhau datblygwyr a chaniatâd cynllunio i ailddatblygu adeilad Jennings ym Mhorthcawl, a fydd yn darparu swyddi ac atyniad i ymwelwyr.
- Gwnaethom barhau i weithio gyda pherchnogion tir i ddatblygu safle Heol Ewenny ym Maesteg ar gyfer defnydd cymysg o dai newydd, cyfleusterau manwerthu a safleoedd gwaith.
- Gostyngodd nifer yr adeiladau gwag ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Maesteg a Phorthcawl o 91 i 83.
- Darparwyd £18,938 gennym trwy ein grant 'kick start' a helpodd 29 o bobl i ddechrau busnesau newydd a darparwyd £104,834 o Gronfa Adfywio Arbennig i 35 o fusnesau i dyfu a chreu swyddi.
- Gwnaeth nifer y busnesau a gofrestrodd ar gyfer TAW/Talu wrth Ennill (TWE) gynyddu o 4090 yn 2014-15 i 4400 yn 2015-16.

- Gwariwyd £1 miliwn ar lwybrau a rennir gan gerddwyr a beicwyr, gan wneud teithiau'n haws ac yn fwy llesol.
- Cynyddodd ein cyfradd gyflogaeth o 70.2 i 72.9, sy'n well na chyfartaledd Cymru o 71.1.

Blaenoriaeth Dau - Cydweithio i godi uchelgeisiau a sbarduno cyflawniad addysgol

Yn ystod y flwyddyn, buom yn gweithio gyda Chonsortium Canolbarth y De (CSC) ac ysgolion i wella ein haddysg. Roeddem yn awyddus i wneud newid mawr yng nghyfradd y gwelliant fel bod gan blant, erbyn mis Medi 2015, y sgiliau llythrennedd a rhifedd ymarferol erbyn i'w haddysg gynradd ddod i ben, a bod o leiaf 60% o bobl ifanc yn cyflawni'r lefel o gymhwyster y disgwylir iddynt ei chyrraedd mewn TGAU.

- Buom yn gweithio gyda CSC, ysgolion, disgyblion a rhieni a llwyddwyd i wella'r presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a gwella'r cyrhaeddiad ym mhob cyfnod allweddol.
- Gwellodd canran y disgyblion sy'n cyflawni'r canlyniad disgwylidig erbyn diwedd y cyfnod sylfaen (7 oed) o 85.1% i 88.8%, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru.
- Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 (11 oed) cyflawnodd 87.6% o ddisgyblion y Dangosydd Pwnc Craidd, i fyny o 86.2%.
- Enillodd 61.1% o ddisgyblion 5 TGAU Gradd A*- C, i fyny o 59.7% y llynedd, gan fynd y tu hwnt i'n targed o 60%.

- o Gadawodd 99.9% o'r holl ddisgyblion a oedd yn gadael yr ysgol, hyfforddiant neu ddysgu yn y gweithle gyda chymhwyster cymeradwy.
- o Pan arolygwyd dinasyddion Pen-y-bont ar Ogwr, rhoddwyd sgôr uchel ganddynt i wasanaethau addysg – y pedwerydd uchaf yng Nghymru.

Blaenoriaeth Tri - Gweithio gyda Phlant a Theuluoedd i fynd i'r afael â phroblemau'n gynnar

Roeddem yn awyddus i gynyddu effeithiolrwydd cymorth ac ymyrraeth gynnar ac atal problemau rhag mynd yn gymhleth, a lleihau'r risg o blant yn gorfod derbyn gofal.

- o Ailstrwythurwyd ein gwasanaethau cymorth i deuluoedd mewn tair canolfan leol i'w gwneud hi'n haws i deuluoedd gael cymorth yn fwy cyflym.
- o Cafodd ein gwasanaeth Cymorth Cynnar 1912 o geisiadau am gymorth i deuluoedd gan ysgolion, y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd, a dosbarthwyd 833 o'r teuluoedd hynny i ganolfannau lleol i gael cymorth, gan atal eu hamgylchiadau rhag gwaethygu ymhellach.
- o Manteisiodd 1,586 o blant a theuluoedd ar wasanaethau Dechrau'n Deg.
- o Er gwaethaf ein hymdrechion, cafodd 608 o blant eu hatgyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd pryderon yn ymwneud ag esgeulustod neu gam-drin, ac roedd 176 ar y gofrestr amddiffyn plant ar ddiwedd y flwyddyn, i fyny o 125 yn 2014-15. Byddwn yn parhau i wneud popeth posibl i leihau'r risg o blant yn gorfod derbyn gofal.

Blaenoriaeth Pedwar - Cydweithio i helpu pobl agored i niwed i aros yn annibynnol

Yn 2015-16 ein bwriad oedd canolbwyntio ar ailfodelu ein gwasanaethau trwy weithio gyda phartneriaid yn y trydydd sector, teuluoedd, gofalwyr a chymunedau i greu amgylchedd cefnogol mewn ardaloedd lleol i atal amgylchiadau pobl rhag gwaethygu ac arwain at golli annibyniaeth.

- o Helpodd ein tîm adnoddau cymunedol 1100 o bobl agored i niwed i aros yn eu cartrefi a pharhau i fod yn annibynnol.
- o Gyda chymorth ein partneriaid, Gwasanaethau Gofal a Thrwsio, cafodd 680 o bobl eu helpu i gadw eu hannibyniaeth, ac roedd 99.79% o'r rhain yn dal i fod yn annibynnol am chwe mis neu fwy.
- o Aethom ati, gyda'n partneriaid, i sefydlu gwasanaeth 'galw heibio' i gynnig gwasanaeth atal ac ymyrryd yn gynnar i helpu pobl â phroblemau iechyd meddwl. Roedd hyn yn cynnwys gweithdai ar sut i reoli gorbryder ac iselder, ac aeth 536 o bobl i'r gweithdai hyn.
- o Buom yn gweithio gyda Chanolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr i wella cyngor a gwybodaeth ac mae nifer y gofalwyr a nododd gwelliant o ran yr wybodaeth a'r cymorth wedi bron â dyblu. Daethpwyd o hyd i arian hefyd i benodi swyddog mewn canolfan rhyddhau o'r ysbyty i gynorthwyo gofalwyr.
- o Rhoddwyd cynnig i 2003 o 2102 o ofalwyr dynodedig i gael asesiad o'u hanghenion cymorth.
- o Buom yn gweithio gyda phartneriaid ac 86 o deuluoedd â phlant i'w hatal rhag bod yn ddigartref.
- o Buom yn gweithio gyda 13 o ddarparwyr gwasanaethau gofal cartref i sicrhau bod pobl yn cael y pecyn cymorth iawn i ddiwallu eu hanghenion.
- o Mae 47 o bobl ag anabledd dysgu yn byw'n annibynnol bellach gan ddefnyddio technoleg gynorthwyol, i fyny o 42.
- o Cefnogwyd 259 o deuluoedd â phlant anabl i fod yn fwy hyderus o ran rheoli anableddau eu plant.

Blaenoriaeth Pump - Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â materion iechyd ac annog dulliau iach o fyw

Roeddem yn awyddus i annog mwy o bobl ledled y fwrdeistref sirol i fyw'n iach a bod yn fwy egnïol.

- Bu'r Parth Teulu Egnïol yn gweithio gydag 144 o deuluoedd â phlant ifanc i'w helpu i fod yn fwy egnïol a bwyta'n fwy iach.
- Rhoddwyd help, cyngor ac arweiniad i 239 o bobl ifanc ar faterion camddefnyddio sylweddau a chafodd 603 o bobl ifanc eraill gyngor ar iechyd rhywiol.
- Buom yn gweithio gyda'n partneriaid, Halo Leisure, i gynyddu nifer yr ymwelwyr â chanolfannau chwaraeon a hamdden a oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol, a gwelwyd cynnydd o 9,528 i 9,634, fesul 1,000 o'r boblogaeth
- Yn un o'r ymarferion ymgynghori a gynhaliwyd gennym, awgrymodd trigolion lleol lwybr newydd o amgylch Caeau Newbridge. Aethom ati i wneud y gwaith hwn, gan ehangu'r mynediad a'i wneud yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn, pobl sy'n mynd â chŵn am dro a phobl eraill sy'n defnyddio'r parc.

Blaenoriaeth Chwec - Gweithio gyda'n gilydd i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau


Roedd angen i ni wneud £11.225 miliwn o arbedion. Mae toriadau o'r raddfa hon yn y gyllideb yn golygu bod angen i ni wneud llawer o benderfyniadau anodd ynghylch pa wasanaethau y gellir eu cynnal a pharai na ellir eu cynnal. Roeddem yn awyddus i leihau'r effaith y caiff llai o gyllid ar ein gwasanaethau, trwy ddefnyddio ein hadnoddau yn y modd gorau posibl a thrwy archwilio dulliau arloesol a hyblyg o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys comisiynu gwasanaethau.


- Gwnaed £9,316 miliwn o arbedion, ond cyrhaeddwyd ein targed o £11.225 miliwn trwy fynd ati i reoli swyddi gwag.
- Cwblhawyd y gofrestr contractau er mwyn cynyddu'r arbedion effeithlonrwydd wrth gomisiynu a chaffael gwasanaethau.

- Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen gennym ni a'n partneriaid i reoli ein theatrau, llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol a Thŷ a Pharc Gwledig Bryngarw.
- Ailstrwythurwyd y Gwasanaeth Cerddoriaeth i Ysgolion, wrth gynnal yr un lefel o wasanaeth heb unrhyw gost ychwanegol i ddisgyblion.
- Mae'r Cydwasanaethau Rheoleiddio ar waith yn llwyr bellach ledled Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg, gan ddarparu gwasanaethau Safonau Masnachu, Iechyd Amgylcheddol a Thrwyddedu mwy effeithlon a chost effeithiol.

Cyllid

Y llynedd, gwariwyd cyfanswm o £420 miliwn gennym ar ddarparu gwasanaethau i'n dinasyddion a buddsoddi yn ein tirwedd a'n seilwaith. Mae'r diagramau isod yn dangos o ble y daeth yr arian a lle caiff yr arian ei wario.





Beth ddywedodd ein rheoleidwyr amdanom

Yn ystod 2015, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru asesiad corfforaethol trylwyr o'r Cyngor. Roedd pwyslais yr asesiad ar bennu a yw trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn helpu i wella'r gwasanaethau a'r canlyniadau i ddinasyddion neu beidio. Roedd hefyd yn ystyried ein perfformiad blaenorol.

Daethpwyd i'r casgliad cyffredinol bod y Cyngor yn datblygu cynlluniau priodol ar gyfer y dyfodol ac, yn amodol â chysoni TGCh a swyddogaethau adnoddau dynol â'r rhaglen drawsnewid, mae mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliannau.

Mae'r adroddiad yn gadarnhaol ac yn gytbwys. Ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion statudol. Yn hytrach, cyflwynodd 8 cynnig ar gyfer gwella. Gellir gweld adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol trwy ddilyn y ddolen hon:

<http://www1.bridgend.gov.uk/media/326178/corporate-assessment-report->

Mae'r awdurdod eisoes wedi dechrau mynd i'r afael â'r meysydd y nodwyd yn yr adroddiad bod angen eu gwella. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn "cadw llygad ar ddatblygiadau trwy ddiweddariadau ar gynnydd".

Ein Hamcanion Gwella ar gyfer 2016 - 17

Yn ystod 2015-16, cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o flaenoriaethau gwella'r Cyngor, gan ystyried adnoddau sy'n crebachu, cynnydd yn y galw am wasanaethau, gan barhau i ddarparu'r pethau y dywedwyd wrthym gan ddinasyddion sydd fwyaf pwysig. Roedd tair blaenoriaeth gwella newydd yn deillio o'r adolygiad hwn, ac maent wedi eu cynnwys yng Nghynllun Corfforaethol 2016-20. Dyma nhw:

- Cefnogi economi llwyddiannus
- Helpu pobl i fod yn hunanddibynnol
- Defnydd craffach o adnoddau

I gael manylion llawn y camau sydd gennym ar waith i ddarparu pob Blaenoriaeth Gwella, ewch i'r dudalen Gwella Corfforaethol ar ein gwefan a darllen ein Cynllun Corfforaethol:

<http://www.bridgend.gov.uk/media/341724/cynllun-corfforaethol-2016-2020.pdf>.

Eisiau gwybod mwy?

I ddarllen yr adroddiad llawn, ewch i wefan BCBC: www.bridgend.gov.uk Mae copïau hefyd ar gael mewn llyfrgelloedd lleol. Gallwch hefyd gysylltu â'r Tîm Gwella Corfforaethol ar (01656) 643224 neu e-bostio improvement@bridgend.gov.uk